

Tribiwnlys Adolygu  
Iechyd Meddwl Cymru

Mental Health Review  
Tribunal for Wales

# Canllaw Darparu datganiadau ac adroddiadau i'r Tribiwnlys

Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru  
Llawr 2, Adeiladau'r Goron  
Parc Cathays  
Caerdydd  
CF10 3NQ  
Ffôn: 0300 025 5328  
Ffacs: 0300 025 7331  
E-bost: mhrt@wales.gsi.gov.uk

Mae Rheolau Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru 2008 (“y Rheolau”) yn disgrifio’r trefniadau ar gyfer darparu adroddiadau.

Mae’n bwysig bod gan y Tribiwnlys ddigon o wybodaeth i’w alluogi i wneud penderfyniad priodol heb orfod gohirio gwrandawriad i gael rhagor o wybodaeth. Gall gohirio achosi trallod i gleifion a’u teuluoedd a gall hefyd fod yn rhwystredig i eraill sy’n gysylltiedig â’r achos. Rhaid i awdurdodau cyfrifol sicrhau bod adroddiadau sy’n cydymffurfio â’r Rheolau ar gael erbyn y dyddiad pan fydd eu hangen fel nad oes yn rhaid i’r Tribiwnlys ohirio gwrandawriad am fod rhywun wedi methu yn eu dyletswydd gyfreithiol i ddarparu’r holl dystiolaeth sy’n rhaid i’r Tribiwnlys ei chael i wneud penderfyniad.

Mae’r llyfryn canllaw hwn yn amlinellu’r gofynion sylfaenol a’r terfynau amser ar gyfer darparu adroddiadau; mae cydymffurfiaeth yn orfodol ac nid yw’n ddewisol.

## **Ar bwy mae’r ddyletswydd i sicrhau bod adroddiadau’n cael eu paratoi, eu hysgrifennu a’u cyflwyno ar amser?**

Mae’r ddyletswydd hon ar yr Awdurdod sy’n gyfrifol am gadw claf o dan Adran o’r Ddeddf neu’r Gorchymyn, ac eithrio mewn achosion sy’n ymwneud â chleifion sydd wedi’u rhyddhau’n amodol, lle mae dyletswydd ar y Weinyddiaeth Cyfiawnder i wneud cais ac i gael adroddiadau gan y clinigwr cyfrifol a’r goruchwyliwr gofal cymdeithasol.

## **Pwy yw’r Awdurdod Cyfrifol?**

**Claf sydd wedi’i gadw mewn ysbyty o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 (Adran 3/37).** Yr Ymddiriedolaeth, Awdurdod neu’r Bwrdd, sydd ar y pryd yn gyfrifol am gadw’r claf mewn ysbyty neu’r Gorchymyn y mae’r claf yn destun iddo.

### **Claf Cymunedol (Adran 17a)**

Oni bai bod cyfrifoldeb wedi’i drosglwyddo i gorff arall, yr Ymddiriedolaeth, Awdurdod neu’r Bwrdd ar gyfer yr ysbyty lle’r oedd y claf yn debygol o gael ei gadw yn y cyfnod cyn gwneud y Gorchymyn Triniaeth Gymunedol.

### **Gwarchediaeth (Adran 7 ac Adran 37)**

Yr Awdurdod Lleol, Adran Gwasanaethau Cymdeithasol.

## **Beth sy’n rhaid i’r Awdurdod Cyfrifol wneud?**

Rhaid i’r awdurdod cyfrifol perthnasol gyflwyno’i hun drwy nodi enw llawn yr Ymddiriedolaeth, Awdurdod neu Fwrdd ar bob gohebiaeth eglurhaol.

Dylai roi enw llawn a dyddiad geni’r claf, yr ysbyty perthnasol a’r adran o’r Ddeddf Iechyd Meddwl y mae’r claf yn destun iddo.

Rhaid i’r awdurdod cyfrifol wneud cais am a chyflwyno’r datganiad, adroddiadau a dogfennau eraill i’r Tribiwnlys erbyn y dyddiad gofynnol.

## Pa Wybodaeth ac Adroddiadau sydd eu hangen?

Nodir pa ddogfennau sydd angen eu cyflwyno yn y Rheolau (gweler hefyd y llyfryn canllaw MHRTW11 – Diwyg a chynnwys yr adroddiad (link to page 1.4)

Mae'r Atodlen i'r Rheolau yn amlinellu pa wybodaeth am y claf sy'n rhaid i'r Awdurdod Cyfrifol eu cyflwyno i'r Tribiwnlys.

### Ceisiadau Adran 2 - Rheol 15 (3)

Dylai'r Awdurdod Cyfrifol gyflwyno:

- y cais i dderbyn y claf;
- yr argymhelliad neu argymhellion ysgrifenedig, pa un bynnag sy'n berthnasol, gan yr ymarferwyr meddygol cofrestredig sy'n sail i'r cais;
- yr wybodaeth a nodir yn Rhan A yr Atodlen ac sy'n hysbys i'r awdurdod cyfrifol ac y gellir yn rhesymol ei darparu o fewn yr amser sydd ar gael; ac
- yr adroddiadau a nodir yn Rhan B yr Atodlen ac y gellir yn rhesymol ei darparu o fewn yr amser sydd ar gael.

### Pob achos arall (ac eithrio cleifion wedi'u rhyddhau'n amodol) – Rheol 15(5)

Rhaid i'r awdurdod cyfrifol gyflwyno'r canlynol **o fewn 3 wythnos** ar ôl cais gan y Tribiwnlys:

- Yr wybodaeth a nodir yn Rhan A yr Atodlen. Rhoddir yr wybodaeth hon fel arfer ar ffurf datganiad gan weinyddwr y Ddeddf Iechyd Meddwl neu gan y gweithiwr cymdeithasol yn achos rhywun sy'n destun Gwarcheidiaeth.
- Yr adroddiad a nodir ym mharagraff 1 Rhan B yr Atodlen (adroddiad clinigol)
- Yr adroddiadau eraill a nodir yn Rhan B yr Atodlen (adroddiad amgylchiadau cymdeithasol, cynllun gofal ac yn y blaen)

Mae gan y Tribiwnlys y pŵer i gyfarwyddo bod gwybodaeth bellach yn cael ei chyflwyno.

### Cleifion a ryddhawyd yn amodol – Rheol 15(4)

Rhaid i'r wybodaeth a nodir yn Rhan C yr Atodlen gael ei chyflwyno gan y Weinyddiaeth Cyfiawnder ynghyd ag adroddiadau a nodir yn Rhan D, sef:

- Os oes clinigwr yn gyfrifol am ofal a goruchwyliaeth y claf yn y gymuned, bod adroddiad cyfredol yn cael ei baratoi ar gyfer y Tribiwnlys gan gynnwys yr hanes perthnasol ac adroddiad llawn ar gyflwr meddyliol y claf.
- Os oes gweithiwr cymdeithasol, swyddog prawf neu nyrs seiciatrig cymunedol yn gyfrifol am ofal a goruchwyliaeth y claf yn y gymuned, bod adroddiad cyfoes yn cael ei baratoi ar gyfer y Tribiwnlys ar gynydd y claf yn y gymuned ers ei ryddhau o'r ysbyty.

- Adroddiad ar amgylchiadau cartref y claf.
- Barn yr Ysgrifennydd Gwladol ar ba mor addas yw'r claf i gael ei ryddhau'n ddiamod
- Unrhyw sylwadau eraill ar y cais yr hoffai'r Ysgrifennydd Gwladol eu gwneud.

## Gwybodaeth na ddylid ei Datgelu

Os yw'r awdur o'r farn bod gwybodaeth yn yr adroddiad a allai achosi niwed difrifol i rywun pe bai'n cael ei datgelu, gall y Tribiwnlys gyfarwyddo i beidio ei datgelu. Er mwyn i'r Tribiwnlys ystyried gwneud cyfarwyddyd i beidio datgelu, dylai awdur yr adroddiad perthnasol:

- Hepgor yr wybodaeth o'r prif adroddiad;
- Ei chyflwyno ar wahân, mewn dogfen sydd wedi'i marcio'n glir gyda'r geiriau “**Ni ddylai gael ei ddatgelu i'r claf heb ganiatâd penodol y Tribiwnlys**” a nodi pwy na ddylai gael gweld yr wybodaeth;
- Cynnwys rhesymau ysgrifenedig pam na ddylai'r wybodaeth hon gael ei datgelu, yn benodol dylai'r rhesymau ddatgan ym mha ffordd y byddai ei datgelu'n debygol o achosi niwed difrifol ac i bwy;

Bydd y Tribiwnlys yn penderfynu a ddylai'r wybodaeth gael ei datgelu ai peidio. Os gwneir cyfarwyddyd i beidio ei datgelu, rhaid i bawb sy'n bresennol yn y gwrandawriad gydymffurfio â'r cyfarwyddyd hwnnw.

## Dyddiadau Gofynnol ar gyfer Cyflwyno Adroddiadau

Gellir cyflwyno adroddiadau ar gyfer ceisiadau Adran 2 ar ddiwrnod y gwrandawriad.

O dan Reol 15 (5) y Rheolau, rhaid i adroddiadau ar gyfer pob achos arall gael eu derbyn o fewn **3 wythnos** ar ôl i'r awdurdod cyfrifol gael cydnabyddiaeth gan y Tribiwnlys a'r cais am adroddiadau. Bydd y dyddiad gofynnol wedi'i nodi yng ngohebiaeth y Tribiwnlys.

## Beth sy'n rhaid i'r Datganiad a'r Adroddiadau ei Gynnwys?

Bydd hyn yn dibynnu ar fath yr achos dan sylw. Ceir gwybodaeth ar ddiwyg a chynnwys yr adroddiad yn ein llyfryn canllaw MHRTW-11

### Datganiad Rhan A:

- adroddiad clinigol;
- adroddiad amgylchiadau cymdeithasol;
- cynllun gofal;
- er nad yw adroddiad nyrsio'n ofynnol o dan Reolau Cymru, mae'r Tribiwnlys yn aml yn teimlo ei bod yn ddefnyddiol os ceir un.

## Sut ddylai'r Datganiad, yr adroddiadau a'r dogfennau gael eu hanfon?

Rhaid eu hanfon yn saff a diogel. Mae'n well gan y Tribiwnlys ac mae'n annog yr awdurdod cyfrifol i gyflwyno'r datganiad a'r adroddiadau drwy e-bost diogel i [mhrtw@wales.gsi.gov.uk](mailto:mhrtw@wales.gsi.gov.uk). Os nad yw e-bost diogel yn bosibl neu os nad yw'n ymarferol, dylid anfon dogfennau â phost dosbarth cyntaf a gofnodir.

## Beth fydd yn digwydd os nad yw'r adroddiadau'n cydymffurfio neu os ydynt yn hwyr?

Mae er lles pawb i geisio sicrhau nad oes yn rhaid gohirio gwrandawriad y Tribiwnlys i gael rhagor o wybodaeth ac i orfod cyfarfod eto ar ddiwrnod arall.

Os nad yw adroddiadau'n cydymffurfio â'r Rheolau, gofynnir i chi ddarparu gwybodaeth ategol.

Os bydd adroddiadau'n hwyr, mae perygl y bydd y Gwrandawriad yn cael ei ohirio. Gallai cynrychiolydd cyfreithiol y claf gymryd camau cyfreithiol yn erbyn yr Awdurdod Cyfreithiol am beidio darparu'r adroddiadau angenrheidiol.

Os bydd angen rhagor o amser i gwblhau adroddiadau mae'n hanfodol bod cais ffurfiol yn cael ei wneud i'r Tribiwnlys.

Rhaid i'r cais nodi faint yn fwy o amser sydd ei angen a'r rheswm pam ei fod yn gofyn am amser ychwanegol. Bydd ceisiadau o'r fath yn cael eu hystyried fesul un gan Gadeirydd y Tribiwnlys. Y prif amcan yw sicrhau bod y Tribiwnlys yn delio â phob achos yn deg, yn effeithlon ac yn fuan ac felly ni ddylid cymryd yn ganiataol y bydd estyniad yn cael ei ganiatáu.

Gall y Tribiwnlys hefyd rhoi cyfarwyddiadau ar ba faterion y mae angen tystiolaeth neu sylwadau arnynt. Os nad yw parti wedi cydymffurfio â chyfarwyddyd neu wŷs gall y Tribiwnlys gymryd pa bynnag gamau y tybia sy'n gyfiawn.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

Mae'r Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Mae'r tribiwnlys hefyd yn croesawu galwadau ffôn yn Gymraeg neu yn Saesneg.

Gallwch chi gyflwyno ffurflenni, dogfennau a chyflwyno sylwadau ysgrifenedig i'r tribiwnlys yn Gymraeg neu'n Saesneg.